*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Gwasanaethau Democrataidd (07385401877)

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 25AIN CHWEFROR, 2021** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 23 CHWEFROR 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA **Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Ionawr, 2021.

**5 - 8**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 19/0421**

Adeiladu 6 annedd ar wahân (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 22/07/19).
**Y TIR TU ÔL I DREFELIN, TRECYNON, ABERDÂR.**

**9 - 30**

**6. CAIS RHIF: 19/0655**

Gwaith peirianneg, ail-lenwi tir, creu mynediad newydd (rhan ôl-weithredol) (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a dogfennau ategol ar 9 Medi 2020 a 18 Rhagfyr 2020).
**FFERM EIN GLASWELLT, RACKETT COTTAGES ROAD, CASTELLAU, BEDDAU, PONT-Y-CLUN, CF72 8LQ**

**31 - 42**

**7. CAIS RHIF: 20/0963**

Cais i gymeradwyo materion wedi'u cadw'n ôl (golwg, gwaith tirlunio, cynllun y safle a graddfa) ar gyfer datblygiad preswyl gan gynnwys y gwaith cysylltiedig, ffyrdd a'r seilwaith.
**HEN SAFLE CLARIANT, HEOL LLANTRISANT, PENTRE'R EGLWYS, CF38 2SN.**

**43 - 54**

8. **CAIS RHIF: 20/0984**

Adeilad newydd arfaethedig ar gyfer boeler biomas 500kw, man storio sglodion coed ynghyd ag estyniad i'r swyddfa a gwaith cysylltiedig.
**SIXTEENTH AVENUE, YSTAD DDIWYDIANNOL HIRWAUN, HIRWAUN.**

**55 - 66**

9. **CAIS RHIF: 20/1171**

Adeiladu 4 o dai teras gyda maes parcio cwrtil cysylltiedig oddi ar y fynedfa gefn.
**Y TIR CYFERBYN Â 186 HEOL Y DWYRAIN, TYLORSTOWN, CF43 3BY (HEN SAFLE CAPEL Y BEDYDDWYR)**

**67 - 76**

10. **CAIS RHIF: 20/1179**

Estyniad unllawr y tu cefn i'r adeilad, adeiladu dreif a chodi lefel y to gan 700mm (ôl-weithredol) (derbyniwyd cynlluniau ychwanegol ar 20/11/2020) (derbyniwyd cyfrifiadau wal gynnal a'r manylion perthnasol ar 03/01/2021).
**FAIRFIELD, LÔN JOHN, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9TQ**

**77 - 86**

11. **CAIS RHIF: 20/1245**

Estyniad ar wahân (a fydd yn cynnwys pedair ystafell ddosbarth, neuadd ysgol a mannau cymdeithasol allanol cysylltiedig).
**YSGOL GYNRADD FFYNNON TAF, HEOL CAERDYDD, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 7PR**

**87 - 96**

12. **CAIS RHIF: 20/1253**

Ailfodelu'r pwll nofio a'r ystafelloedd newid presennol yn fewnol i greu cyfleuster gofal plant newydd sy'n cynnwys ystafell chwarae, swyddfa, toiledau i blant a staff, cegin ac ystafell gotiau.
**YSGOL GYNRADD DOLAU, HEOL PEN-Y-BONT AR OGWR, LLANHARAN, PONT-Y-CLUN, CF72 9RP**

**97 - 104**

13. **CAIS RHIF: 20/1298**

Ailfodelu'r pwll nofio a'r ystafelloedd newid presennol yn fewnol i greu cyfleuster gofal plant newydd. Bydd rampiau metel newydd wedi'u gorchuddio â phowdr yn cael eu gosod yn y mynedfeydd presennol i wella hygyrchedd a bydd uchder siliau dwy ffenestr yn cael eu hadfer i'w lefel wreiddiol.
**YSGOL GYNRADD DOLAU, HEOL PEN-Y-BONT AR OGWR, LLANHARAN, PONT-Y-CLUN, CF72 9RP**

**105 - 116**

14. **CAIS RHIF: 20/1403**

Dymchwel tŷ'r gofalwr, adeiladu cyfleusterau addysgu a chwaraeon.
**YSGOL GYFUN RHYDYWAUN, MANGOED, PEN-Y-WAUN,**

**HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9ES**

**117 - 138**

**15. CAIS RHIF: 21/0005**

Adeiladu estyniad traddodiadol unllawr sy'n cynnwys tair ystafell ddosbarth, gan gynnwys toiledau, ystafell beiriannau, mannau storio a gwaith allanol cysylltiedig gan gynnwys Ardal Gemau Aml-ddefnydd newydd a phedwar man parcio ychwanegol ar adeilad presennol yr ysgol.

**YSGOL GYNRADD CWMLAI, HEOL PENYGARREG, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8AS**

**139 - 148**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**16. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 25/01/2021 – 12/02//2021.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

**149 - 164**

**17. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd R Yeo, Y Cynghorydd D Williams ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd